

Darlith 11

Adolygu a thrafod yr aseiniad

Adolygu

Ymarferion Rhyngweithiol...

<http://sgiliauiaith.colegcymraeg.ac.uk/cy/adnoddau-dysgu/tasgauymarfergloywiiath/>

Gwnewch ymarferion rhyngweithiol:


Treiglo 1-7

Sillafu i ac u


Gwallau Cyffredin 1-6

Osgoi Ymadroddion Saesneg 1-3

Wrth wneud yr
ymarferion –
trafodwch 'pam?'
gyda phartner.



Tasgau rhyngweithiol eraill...



Aseiniad ITIA4002C

Teitl...

Dewiswch sgil ieithyddol addas a blwyddyn ysgol i'w targedu.
Cynlluniwch wal ddysgu ryngweithiol fydd yn cefnogi datblygu'r sgil a ddewiswyd (i'w chyflwyno ar dudalen A3).

Cyflwynwch resymwaith ysgrifenedig, i gynnwys:

- pwrpas y wal – ar gyfer beth y caiff ei defnyddio
- pam ei bod hi'n briodol yn eich barn chi i ddefnyddio'r wal: eich rhesymau dros gynllun y wal: y dewisiadau a wnaed gennych ar sail gwybodaeth: cyfeiriadaeth at ddarllen ehangach
- sut gallech ddefnyddio'r wal gyda grwp o ddisgyblion

Efallai byddwch am nodi unrhyw gyfyngiadau yn sgil eich penderfyniadau hefyd.



Cynllun yr Aseiniad ...

Tudalen A3 gyda'ch wal ddysgu ryngweithiol – ym mlaen eich aseiniad.

Cyflwyniad:

- Nodwch y cyd-destun – pa flwyddyn? pa sgil? pam ydych chi wedi dewis rhain? Cofiwch gyfeirio at y Cwricwlwm / FfLIRh.

Corff yr Aseiniad:

- Cyfres o baragraffau fydd yn creu 'trafodaeth'. Bydd rhaid i chi drafod beth yw'r rhesymeg dros eich wal a'ch dewisiadau.
- Bydd rhaid i chi gynnwys:
 - pam bo'r wal yn briodol
 - y rhesymau dros y wal a'i helfennau – cyfeirio at lenyddiaeth academiaidd a'r cwricwlwm/gofynion y FfLIRh
 - sut y gallech ddefnyddio'r wal gyda'r dysgwyr
 - tystiolaeth eich bod wedi darllen yn ehangach
 - trafodaeth beirniadol
 - unrhyw gyfyngiadau i'ch dewisiadau

Yr aseiniad ...

Bydd canllawiau pellach ar ddarllen ehangach ar moodle cyn bo hir ...

- mae llyfrau yn y llyfrgell ar 'arddangosfeydd' a'r awyrgylch ddysgu yn y dosbarth

Nid oes angen i chi gynnwys llyfryddiaeth – rhestr o'r holl lyfrau y gwnaethoch eu darllen, dim ond cynnwys rhestr gyfeiriadau – h.y y rhai hynny rydych chi wedi cyfeirio'n benodol atynt yn y testun.

Iaith yr aseiniad ...

Lefel 4	Disgrifiwyr Meini Prawf Aseu ar gyfer BA Addysg Gynradd gyda SAC Mae'r fformat hwn yn pwysleisio natur gyfannol y dyfarniadau a wneir gan y marcwyr. Addasir pwysiad y meini prawf ar gyfer pob modwl.					
	0-39 (M)	40-49 (P)	50-59 (P)	60-69 (P)	70-79 (P)	80-100 (P)
Meini Prawf Aseu	Gwael / gwan M	Bodddhaol 3ydd	Da 2:2	Da iawn 2:1	Ardderchog 1af	
	Gwael, arwynebol, anhrefnus, anghyflawn a/neu wallus	Dangosir dealltwriaeth foddhaol o'r prif faterion	Dangosir dealltwriaeth dda gyda pheth dadansoddi	Dealltwriaeth dda iawn o egwyddorion sylfaenol a thystiolaeth berthnasol, gyda dadl gydlynol a rhesymegol	Ateb ystyriol yn seiliedig ar ddarlennu changach, sy'n dangos eglurder meddwl a dimadaeth bersonol	
Deilliannau Dysgu'r modwl yn cyfateb i:	0-11	12-14	15-17	18-20	21-23	24-30
Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Pwnc (Cysyniadol)	Camddealltwriaeth, camdybiaethau, camddehongliadau sylfaenol a/neu gwybodaeth arwynebol mewn mannau	Ymwybyddiaeth o wybodaeth bynciol y deunydd ac yn dechrau ei gymhwysio	Gwybodaeth amlinellol am rai o'r prif faterion gyda thystiolaeth o ddealltwriaeth a chymhwysiad	Gwybodaeth ddfiniedig am rai o'r prif faterion ac oblygiadau changach	Gwybodaeth changach o fwyafrit y prif faterion, cysyniadau a dadlueon	Dealltwriaeth lwyr o'r prif
	Peth llenyddiaeth/deunydd amhriodol ac amrediad darlennu cyfyngedig a diffyg cywirdeb	Amrediad darlennu bodddhaol o'r rhestr argymhellid a ffynonellau eraill	Amrediad darlennu da o'r rhestr argymhellid a ffynonellau eraill	Amrediad da iawn o ddeunydd darlennu perthnasol o amrywiaeth o ffynonellau y tu hwnt i'r rhestr argymhellid	Tystiolaeth o foddwl cytbwys yn seiliedig ar ddarlennu eang gan ddefnyddio amrywiaeth o ffynonellau	
Sgiliau deallusol (dadl)	Y ddadl yn wan, fawr ddim ymdrech i gyflwyno safbwyntiau gwahanol. At ei gilydd yn rhy ddisgrifiadol	Y ddadl yn dechrau cael ei chydbwysio ag ymwybyddiaeth o wahanol safbwyntiau	Cyflwynir dadl gytbwys gyda rhai safbwyntiau wedi'u cyfiawnhau	Cyflwynir dadl gytbwys gydag ystyriaeth ofalus o safbwyntiau	Cyflwynir dadl gytbwys gydag ystyriaeth drwyddol o safbwyntiau	
	(gwerthuso beirniadol/ adfyfrio)	Prinder tystiolaeth o werthuso a/neu adfyfrio beirniadol	Ychydig o dystiolaeth o werthuso a/neu adfyfrio	Tystiolaeth o werthuso a/neu adfyfrio ond diffyg dyfnder	Tystiolaeth dda iawn o werthuso a/neu adfyfrio	Tystiolaeth o werthuso ac adfyfrio ystyriol a beirniadol
Cymwysiadau pedagogig a phroffesiynol (cysylltu theori ac arfer)	Dealltwriaeth arwynebol neu ddiffyg dealltwriaeth o'r cyd-destun(au) pedagogig a phroffesiynol	Tystiolaeth gychwynnol o ymgyssylltu a dealltwriaeth o ran y cyd-destun(au) pedagogig a phroffesiynol	Tystiolaeth o integreiddio theori ac arfer o ran y cyd-destun(au) pedagogig a phroffesiynol	Integreiddio amlwg o theori ac arfer o ran y cyd-destun(au) pedagogig a phroffesiynol	Integreiddio theori ac arfer yn ardderchog o ran y cyd-destun(au) pedagogig a phroffesiynol	
	(adfyfrio proffesiynol)	Dim neu ychydig o dystiolaeth o adfyfrio	Tystiolaeth sylfaenol o adfyfrio	Tystiolaeth o adfyfrio da	Tystiolaeth o adfyfrio da iawn gyda pheth dealltwriaeth	Tystiolaeth o adfyfrio ystyriol a beirniadol
Sgiliau allweddol/ trosglwyddadwy	0-3	4	5	6	7	
	Cyflwyniad y gwaith ysgrifenedig yn wan	Cyflwyniad y gwaith ysgrifenedig yn foddhaol	Cyflwyniad y gwaith ysgrifenedig yn dda	Cyflwyniad y gwaith ysgrifenedig yn dda iawn	Cyflwyniad y gwaith ysgrifenedig yn ardderchog	
(Technegau cyfeiriod)	Nifer o wallau sylfaenol o ran sillafu, atalnodi neu ramadeg	Rhai gwallau sylfaenol o ran sillafu, atalnodi neu ramadeg	Ychydig o wallau sylfaenol o ran sillafu, atalnodi neu ramadeg	Ychydig iawn o wallau yn yr iaith ysgrifenedig	Mân wallau yn yr iaith ysgrifenedig	
	Strwythur gwan ac arddull ysgrifennu aneglur mewn mannau	Strwythur bodddhaol gydag arddull ysgrifennu clir	Strwythur da gydag arddull ysgrifennu clir	Strwythur da iawn sy'n cynnal y darlennydd	Strwythur ardderchog sy'n cynnal y darlennydd	Arddull ysgrifennu aeddfed a dealladwy sy'n dal sylw'r darlennydd yn llwyr
	Dim neu ychydig o ddefnydd o brotocolau ac arferion dull cyfeiriod Harvard	Defnydd bodddhaol o brotocolau ac arferion cyfeiriod Harvard	Defnydd da o brotocolau ac arferion cyfeiriod Harvard	Defnydd cywir o brotocolau ac arferion cyfeiriod Harvard ar y cyfan, gyda rhai ffynonellau eilaidd	Defnyddir system Harvard yn gywir gan ddefnyddio ffynonellau eilaidd	Defnyddir system Harvard yn gywir, yn gyson ac yn effeithiol gyda phob ffynhonnell

»Aseiniad ITIA4002C

Wal ddysgu ryngweithiol.

Pa frawddegau/ieithwedd ydw i'n mynd i'w defnyddio...

Deilliannau Dysgu	Geirfa / Ieithwedd
Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Pwnc (cysyniadol)	
Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Pwnc (Darllen)	
Sgiliau Deallusol (dadl)	